# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Fideo Gynadledda drwy Zoom** | **Sarah Beasley** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Hydref 2020 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.00 | 0300 200 6565 |
| | SeneddIechyd@senedd.cymru |

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00-09.30)**

1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)

2 **COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Papyrus a Samariaid Cymru**
(09.30-10.40) (Tudalennau 1 - 22)
Kate Heneghan, Pennaeth Papyrus yng Nghymru
Sarah Stone, Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru - Samariaid Cymru

Briff ymchwil
Papur 1 - Samariaid Cymru

**Egwyl (10.40-11.00)**

3 **COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gydag academyddion**
(11.00-12.10)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yr Athro Ann John, Athro ym maes Iechyd y Cyhoedd a Seiciatreg, Prifysgol Abertawe, a Chadeirydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed

Dr Antonis Kousoulis, Cyfarwyddwr Cymru a Lloegr - Sefydliad Iechyd Meddwl

## 4 Papurau i'w nodi

(12.10)

**4.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol - Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalen 23)

**4.2 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y Cod Ymarfer ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth**

(Tudalen 24)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.10)

## 6 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

(12.10-12.15)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol: Trafod tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a'r dull gweithredu ar gyfer yr adroddiad

(12.15-12.20) (Tudalennau 25 - 29)

## 8 Blaenraglen Waith

(12.20-12.30) (Tudalennau 30 - 34)

Papur 4: Blaenraglen Waith

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Diben y Samariaid yw lleihau nifer y bobl sy'n marw trwy hunanladdiad. Bob blwyddyn, mae rhwng 300 a 350 o bobl yn marw trwy hunanladdiad yng Nghymru, sydd tua theirgwaith y nifer sy'n cael eu lladd mewn damweiniau ar y ffyrdd. Mae pob un o'r marwolaethau hyn yn drasiedi sy'n llorio teuluoedd, ffrindiau a chymunedau.

Mae Samariaid Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu ffrwd waith gynhwysfawr ac uchelgeisiol i atal hunanladdiadau cysylltiedig â phandemig COVID-19. Dylai'r ymagwedd hon gydnabod natur bellgyrhaeddol a digynsail effaith argyfwng Covid-19, a bod atal hunanladdiad yn fater o bwys o ran iechyd meddwl y boblogaeth gyfan. Dylai'r cynllun ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a chael ei seilio ar strategaeth a strwythurau sy'n bodoli eisoes. Dylai gydnabod pa mor bwysig yw peidio â thrin trallod fel mater meddygol, pwysigrwydd cefnogi ymateb tosturiol a meithrin gwydnwch, gan gydnabod ac adeiladu ar alluogrwydd unigolion a chymunedau. Dylai gael ei lywio gan yr hyn a wyddom eisoes am y bobl sydd â'r risg fwyaf a pha gamau gweithredu yw'r mesurau lliniaru mwyaf effeithiol.

Yn y chwe wythnos ers dechrau'r cyfyngiadau symud, rydym wedi darparu cymorth emosiynol bron 400,000 o weithiau. Mae galwyr wedi sôn am COVID-19 yn benodol mewn 1 ym mhob 3 chyswllt cymorth emosiynol. Mae galwyr yn mynegi pryderon sylweddol am iechyd a salwch meddwl, teulu a pherthnasoedd, ynysigrwydd ac unigrwydd. Dywedodd gwirfoddolwyr fod rhai o'r pryderon mwyaf cyffredin yn cynnwys methu â chael gwasanaethau iechyd meddwl, llai o fecanweithiau ymdopi – er enghraifft trwy beidio â gweld ffrindiau, cymryd rhan mewn hobïau neu fod â threfn bywyd gyson, a straen ar berthnasoedd trwy fod ar wahân i anwyliaid neu oherwydd tyndra sy'n codi ar aelwydydd. Mae methu â chael gwasanaethau iechyd meddwl (e.e. apwyntiadau timau argyfwng) wedi bod yn thema fawr ers dechrau'r cyfyngiadau symud ac mae'n achosi lefel gynyddol o drallod i alwyr. Wrth i'r cyfyngiadau symud lacio, rydym yn clywed mwy o adroddiadau am gymorth annigonol. Mae llinell gymorth y Samariaid wedi cael ei defnyddio fel adnodd amgen gan rai galwyr (Ffynhonnell: arolwg gwirfoddolwyr y Samariaid).

Mae gwirfoddolwyr hefyd wedi dweud wrthym fod galwyr yn pryderu am yr effaith ar anghenion sylfaenol fel bwyd, tai a chyflogaeth. Mae'r coronafeirws a'r cyfyngiadau symud yn gwaethygu cyflyrau presennol galwyr – gorbryder yn bennaf, ond hefyd iselder, anhwylder gorfodaeth

obsesiynol ac eraill hefyd. Ymddengys fod lefelau hunanladdoldeb ymysg y bobl sy'n ein galw wedi aros yn sefydlog ond mae gorbryder wedi cynyddu, wrth i fwy o alwyr siarad â ni am orbryder ac wrth i lefel gorbryder fod yn uwch (Ffynhonnell, arolwg gwirfoddolwyr y Samariaid).

Yn Samariaid Cymru, credwn fod camau gweithredu atal a chyrraedd grwpiau risg uchel yn hanfodol er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cyrraedd pwynt argyfwng. Nid yw hunanladdiad yn anochel ac mae angen trin gwaith atal hunanladdiad fel mater brys.

## Argymhellion polisi

Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu cymorth i grwpiau sydd eisoes â risg gynyddol hunanladdiad ac y mae mesurau pellter cymdeithasol ac enciliad economaidd posibl yn debyg o gael effaith arbennig arnynt. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gydnabod bod atal hunanladdiad yn fater o bwys o ran iechyd meddwl y boblogaeth gyfan, ac y gall ymyrraeth gynnar leihau costau dynol, cymdeithasol ac economaidd.

Mae Samariaid Cymru yn croesawu'r erthygl ddiweddar yng nghylchgrawn y Lancet, [Suicide risk and prevention during the COVID-19 pandemic]. Mae'r ddogfen hon yn nodi nifer o flaenoriaethau a all lywio gwaith Llywodraeth nesaf Cymru, a ddylai hefyd fanteisio ar y trafodaethau gyda Chynghrair Iechyd Meddwl Cymru i lunio sail ei hymateb er mwyn sicrhau bod cyn lleied o bobl ag sy'n bosibl yn marw trwy hunanladdiad yn ystod y pandemig ac wedyn.

### <u>Argymhelliad: Dylai Llywodraeth nesaf Cymru flaenoriaethu hunan-niwed</u>

**Tymor byr: Dylai Llywodraeth nesaf Cymru a GIG Cymru gydweithio i atgyfnerthu cymorth o ansawdd da a ddarperir ar lein, trwy gynyddu a chyflymu'r gwaith o ddatblygu'r apiau cymorth sy'n bodoli eisoes**

**Tymor canolig: Dylai GIG Cymru ddarparu therapïau ar-lein cynhwysfawr i ymdrin yn uniongyrchol ag ymddygiad hunan-niweidio yn ogystal â'r trallod sy'n sylfaenol iddo**

Rydym yn pryderu bod llawer o bobl sy'n hunan-niweidio wedi cael eu gadael heb eu mecanweithiau ymdopi arferol a'u bod yn cael trafferth i gael gafael ar gymorth allanol. Mae angen mesurau i sicrhau bod pobl sy'n arbennig o agored i niwed yn cael cymorth trwy gydol cyfnod y pandemig ac wedyn.

### <u>Argymhelliad: Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod cymorth o bell a chymorth digidol ar gael i'r rheiny sy'n cael trafferth</u>

**Tymor byr: Dylai GIG Cymru gynyddu cymorth o bell a chymorth digidol er mwyn:**

- Sicrhau llwybrau clir ar gyfer asesu a gofal o bell i bobl sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl
- Cynorthwyo pobl sydd wedi cael profedigaeth

**Tymor canolig: Dylai GIG Cymru sicrhau bod ymyriadau a therapïau ar-lein seiliedig ar dystiolaeth ar gael i gynorthwyo pobl sy'n hunanladdol.**

Mae'n bosibl y bydd cyflyrau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes yn cael eu gwaethygu gan y pandemig ac y bydd symptomau'r rheiny sydd ag iechyd meddwl gwael neu broblem iechyd

meddwl yn gwaethygu o ganlyniad i ofn, hunanynysu ac ansicrwydd. Mae hefyd yn bosibl y bydd pobl yn datblygu problemau iechyd meddwl newydd, yn enwedig iselder, gorbryder a straen ôl-drawmatig (sydd i gyd yn gysylltiedig â mwy o risg hunanladdiad).[3]

Mae risg ddifrifol na fydd y rheiny sy'n cael trafferth â'u hiechyd meddwl neu sydd ar bwynt argyfwng yn gallu cael gafael ar eu gwasanaethau iechyd meddwl a rhwydweithiau cymorth arferol. Gallai rheolaeth wael ar broblemau iechyd meddwl difrifol a pharhaus yn ystod ynysu, neu oherwydd mynediad cyfyngedig at y gwasanaethau iechyd meddwl neu rwydweithiau cymorth arferol, gynyddu'r risg o iechyd meddwl sy'n gwaethygu neu hunanladdoldeb. O ganlyniad, mae'n gwbl hanfodol i gymorth o bell a chymorth digidol fod ar gael ac yn hygyrch i'r rheiny sy'n cael trafferth.

## Argymhelliad: Casglu data o ansawdd da ac amserol ar hunanladdiad

**Tymor byr:** Rhaid i wyliadwriaeth amser-real gael ei chyflwyno ar draws Cymru er mwyn deall ac ymateb yn effeithiol i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran hunanladdiad ac sy'n gysylltiedig â COVID-19 mewn modd amserol.

Rhaid deall mwy am dueddiadau a nifer achosion hunanladdiad, er enghraifft mewn gwahanol grwpiau ethnig, a sut mae COVID-19 yn effeithio ar y tueddiadau hyn. Mae rhoi ar waith system o wyliadwriaeth amser-real ar ddata hunanladdiadau hefyd yn cynnig cyfle i gofnodion crwneriaid ar hunanladdiadau ameuedig gael eu storio'n ddigidol, yn hytrach nag ar bapur.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA VG 2969 20

Dai Lloyd AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Mick Antoniw AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Hydref 2020

Annwyl Dai, Mick,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Senedd mewn perthynas â:

- **Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 30A (RhS30A).

Rwy'n ysgrifennu hefyd i roi gwybod ichi nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i gynnal dadl am yr OS hwn yn yr achos hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn ar sail y ffaith mai'r unig beth y mae'r OS hwn yn ei wneud yw cywiro diffygion yn y gyfraith a fydd yn codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE. Darpariaethau technegol eu natur sydd yn yr OS hwn, ac ni cheir unrhyw ymwahanu rhwng polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

Mae RhS30A yn darparu y caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i gynnal dadl ar yr OS hwn. O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Senedd yn ei ystyried, ni fyddaf yn ceisio cynnal dadl o'r fath.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/P/0453/20

Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Hydref 2020

Annwyl Dai,

**Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod Ymarfer ar Gyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Ym mis Rhagfyr 2019, anfonais gopi o'r ddogfen ymgynghori ddrafft at y Pwyllgor. Hoffwn nawr dynnu sylw'r Pwyllgor at yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod Ymarfer Statudol drafft ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a lansiwyd ar 21 Medi 2020. Rwy'n croesawu sylwadau'r Pwyllgor ar y cod ymarfer drafft a'r ddogfen ganllaw gysylltiedig.

Amgaeaf ddolen, er gwybodaeth, at fy Natganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod. Mae'n cynnwys dolen at dudalen we yr ymgynghoriad cyhoeddus https://llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-gyflenwi-gwasanaethau-awtistiaeth**.** Mae disgwyl i'r ymgynghoriad bara 12 wythnos a bydd yn dod i ben ar 14 Rhagfyr 2020.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon